**YSGOL GYMUNED PENISARWAUN**

**PENISARWAUN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 3BW**
**FFON 01286 870879**

**Pennaeth / Headteacher Mr. G.F.Jones B.Add**

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Yn gyntaf oll hoffwn groesawu chwi a'ch plentyn i Ysgol Gymunedol Penisarwaun. Credaf y bydd y llawlyf ryma o gymorth i chwi ddod i adnabod yr ysgol a hoffwn bwysleisio ei bod yn ysgol gartrefol a chyfeillgar.

Pwysleisiaf fod partneriaeth rhwng rhieni, disgybl a'r ysgol yn hynod o bwysig er mwyn sicrhau bod cyfnod eich plentyn yn yr ysgol yn un hapus, a rhoddir pob cefnogaeth i'w ddatblygu'n gymdeithasol ac addysgol.

Nid yw'r llawlyfr hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth, ond mae'n gymorth i chwi adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chwi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn.

Bwriad y llawlyfr yw bod yn ganllaw yn unig a chroesawir chwi ar unrhyw achlysur i drafod ei gynnwys gyda threfniant o flaen llaw.

Yn gywir,
Gareth Fôn Jones
(Pennaeth)

# ***STAFF YR YSGOL - 2010 -2011***

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Gareth Fôn Jones |
| Athrawes | Carol Ann Jones , Sharon Ray |
| Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen | Rhian Roberts |
| Cynhorthydd AAA | Bethan Pritchard , Bethan A Williams |
| Ysgrifenyddes / Clerc Gweinyddol | Elizabeth Jones |
| Cogyddes | Carolyn Jones |
| Cynorthwywraig | Beryl Roberts |
| Gofalwraig | Gwenda Jones |
| Arolygwyr amser cinio | Gwenda Jones<br>Carol Porter |

## Y CORFF LLYWODRAETHOL MEDI 2010

| | **Yn Cynrychioli** | **Daw Tymor i Ben** |
|---|---|---|
| Mrs Anna Marie Jones | Cadeirydd .Awdurdod Addysg Lleol | Awst 2012 |
| Mrs Elizabeth Jones | Clerc | Awst 2012 |
| Mrs Pat Larsen | Awdurdod Addysg Lleol | Awst 2012 |
| Mr Steven Walker | Cyfetholwyd | Awst 2012 |
| Mrs Gwenllian Herd | Rhieni | Awst 2014 |
| Miss Phyllis Ellis | Cyngor Cymuned | Awst 2012 |
| Mrs Katy Williams | Rhieni | Awst 2012 |
| Mrs Fiona Jones | Rhieni | Awst 2011 |
| Mr John Jones | Is-Gadeirydd Cyfetholwyd | Awst 2012 |
| Mrs Carol Jones | Athrawon | Awst 2012 |
| Mr Gareth Fôn Jones | Pennaeth | Awst 2012 |

# NATUR YR YSGOL

Ysgol Gynradd Sirol (Meithrin/Babanod/Iau) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol ar gyfer plant 3-11 oed.

## Y SEFYLLFA IEITHYDDOL

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Gymuned Penisarwaun ac mae'r staff a'r disgyblion yn gweithio'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd a'ch plant yn ran o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych chi'n siarad Cymraeg (er bod llawer o rieni'n penderfynu dysgu'r iaith), ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch ieithyddol sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, bydd pob gohebiaeth o'r ysgol yn ddwyieithog.

## TREFNIADAETH A CHWRICWLWM

Yn unol â gofynion Ddeddf Addysg 1986 mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm secwlar. Dehongli gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Mae'r cynllun sydd yn cael ei ddefnyddio yn Ysgol Gymuned Penisarwaun wedi ei seilio ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r ffordd mae'n cael ei weithredu er mewn sicrhau bod yr addysg sydd yn cael ei gynnig i'r disgyblion yn cyfarfod ac amcanion yr ysgol.

Yr amcanion cwricwlaidd mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi eu mabwysiadu yw bod Ysgol Gymuned Penisarwaun yn creu awyrgylch, cyfleoedd, ac adnoddau fydd yn:

1 creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall y disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau/doniau a datblygu i'w lawn neu llawn botensial.

2 cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod, y gymdeithas a'r unigolyn.

3 cymhwyso'r plentyn:
i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, a bod yn ymwybodol
o'r etifeddiaeth Gymreig, i gyfrannu i'r gymdeithas, i dderbyn oddi
wrth y gymdeithas, ac i fyw yn gytûn yn y gymdeithas.

4 paratoi'n ddinasyddion cyfrifol.

Er mwyn hybu'r amcanion yma bydd yr ysgol yn ceisio:

1. Datblygu sgiliau llefaredd, llythrennedd a rhifedd y plentyn ar yr un pryd a meithrin chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth a datblygu gallu rhesymu y plentyn fel ei fod ef neu hi yn hyderus wrth ddelio a phrosesau a thechnegau newydd, ac yn gallu byw yn hapus a llwyddiannus mewn byd sydd yn newid drwy'r amser.
3. Creu'r awydd ym mhob plentyn i fod eisiau dysgu a phrofi pethau newydd yn ystod ei fywyd, a datblygu synnwyr moesol ac ysbrydol .

4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn galluogi'r plentyn i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden .
6. Trin a darparu ar gyfer pob plentyn fel unigolyn sydd yn haeddu sylw arbennig.
7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau mewn dull sydd yn fywiog a deinamig er mwyn dal sylw a chadw diddordeb y plant.
8. Meithrin cysylltiad iach rhwng ysgol a chymdeithas, gan ystyried yr ysgol fel sefydliad sy'n rhan o'r gymdeithas leol.
9. Meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol, ei disgyblion, athrawon a'i chyfraniad i'r gymdeithas.

**Fframwaith Academaidd**.

Mae'r fframwaith academaidd yr ysgol wedi ei seilio ar y syniad o'r ysgol fel un uned teulu bychan. Mae'r un uned wedyn yn cael eu rhannu'n ddosbarthiadau llai yn ôl oedran y plant gydag un aelod o staff yn gyfrifol am bob dosbarth. Oherwydd natur yr ysgol, a'r cyd-weithio agos rhwng aelodau staff, mae'r athrawon yn dod i adnabod holl blant yr ysgol ac mae hyn yn hybu gofal bugeiliol a chreu dilyniant. Ar hyn o bryd mae'r dosbarthiadau wedi eu trefnu fel a ganlyn:

| DOSBARTH | OED | ATHRO/ATHRAWES |
|---|---|---|
| Meithrin , Derbyn Bl a 2 (CA1) | 3 - 7 | Mrs C Jones/ Mrs Rhian White |
| Bl 3 a 4 (CA2) | 7 - 9 | Sharon Ray |
| Blwyddyn 5 a 6 (CA2) | 9 - 11 | Mr G F Jones |

Os oes unrhyw newid i'r trefniadau yma bydd rhieni yn derbyn llythyr gyda'r manylion.

**Patrwm Gwaith**

Er mwyn ymateb i holl amcanion yr ysgol, ac er mwyn sicrhau profiadau gwerthfawr ac eang i'r plant mae'r patrwm gwaith yn gallu bod yn hyblyg.

Yn gyffredinol mae'r plant yn cael eu dysgu fel uned ddosbarth dan ofal athro/athrawes sefydlog. O fewn y dosbarth mae'r plant wedyn yn cael profiadau o weithio fel unigolion, o gyd-weithio mewn grwpiau bach o blant yr un oed, neu gyd-weithio mewn grwpiau o oed cymysg.

**Y CWRICWLWM**

Mae'r ysgol wedi cynllunio'r cwricwlwm gan ddilyn awgrymiadau Cyngor Cwricwlwm Cymru ar bynciau craidd a phynciau sylfaenol.

Y pynciau craidd yw **Cymraeg, Saesneg (CA2), Mathemateg, a Gwyddoniaeth.**

Y Pynciau sylfaenol yw **Technoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, a Thechnoleg Gwybodaeth.**

Mae'r pynciau yn cael eu cyflwyno i'r plant drwy ddilyn themâu penodol o fewn y dosbarth sydd yn arwain at weithgareddau a phrofiadau ym mhob maes. Mae'r athrawon yn cofnodi cyfraniad pob 'pwnc' i'r thema mewn ffordd systematig er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn addysg gyflawn o fewn y cwricwlwm. Ar rai adegau bydd pynciau fel Mathemateg, Iaith, Cerdd ac Addysg Grefyddol yn cael eu dysgu tu allan i'r brif thema.

**Addysg Grefyddol**

Mae Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu i holl blant yr ysgol ac mae disgwyl i bob plentyn gymryd rhan yn y cyd-addoli oni bai bod rhiant yn eithrio' plentyn o'r gwersi a/neu cyd addoliad boreol. Os yw plentyn yn cael ei eithrio bydd trefniadau addas yn cael eu gwneud. Nid oes gan yr ysgol gysylltiad uniongyrchol a ffurfiol gydag unrhyw enwad crefyddol penodol.

**ADDYSG RHYW ac ADDYSG BERSONOL a CHYMDEITHASOL**

Mae Addysg Rhyw bellach yn rhan anatod o'r Cwricwlwm Gwyddoniaeth ac fe gyflwynir y cysynyiadau a'r eirfa berthnasol yng Nghyfnod Allweddol 1. Adeiladir ar y wybodaeth a chynyddir yr eirfa yn ystod blynyddoedd yr Adran Iau. Mae polisi cynhwysfawr wedi ei baratoi ac mae ar gael i'w weld pe dymunir hynny.

Llythyrir gyda rhieni i'w hysbysu os yw y gwaith gwyddoniaeth yn cynnwys addysg rhyw, ac mae ganddoch yr hawl i eithrio eich plant rhagddo os dyna yw eich dymuniad.

Yn yr un modd, mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ofyn statudol ac rydym yn cyflwyno hyn fel rhan o weithgareddau dosbarth. Mae'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol niferus –sut i wneud a chadw ffrindiau, sgiliau datrys problemau, rheoli tymer ac adnabod a deall emosiynau a theimladau. Cynigir cyfleoedd i rannu pryderon a pherchir pob cyfrinachedd. Mae'r cynllun Webster-Stratton yn atgyfnerthu ein hamcanion o greu ymagwedd bositif ymysg y disgyblion a'r staff.

**Yr Ysgol Sy'n Hybu Iechyd**

Mae'r ysgol yn rhan o'r prosiect hwn ac yn gweithio ar y cyd gydag athrawes ymgynghorol sy'n ddolen gyswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod iechyd. Rydym yn gweithredu Cam 1 o'r cynllun eleni.

Welsh Network of Healthy School Schemes

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

**Ysgolion Gwyrdd**

Mae'r ysgol hefyd yn rhan o'r prosiect Ysgolion Gwyrdd. Prif nod y cynllun yw codi ymwybyddiaeth o'r angen i ofalu am ein hamgylchedd a fod yn fwy darbodus ohono; rhwystro llygredd yn ein hardal ni a chydweithio i wella ein hamgylchedd. Bydd y cynllun yn cynorthwyo'r ysgol i edrych ar yr amgylchedd drwy:

- Leihau Gwastraff
- Arbed ynni ac adnoddau naturiol
- Lleihau a rhwystro llygredd
- Edrych ar ôl yr amgylchedd lleol a byd eang
- Deithio yn ddoeth

Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn

**Cyfle Cyfartal**

Cydnabyddwn bod ein plant yn tyfu i fyny mewn cymdeithas eang a nodweddir gan wahaniaethau, nid yn unig mewn hil ond crefydd, gwisg, bwyd ac iaith sy'n adlewyrchu'r newidiadau cyfoes hyn. Anelwn, felly, at adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn ac ehangu ar addysg yr holl ddisgyblion i'w galluogi ddeall a gwerthfawrogi natur aml-ddiwylliannol amrywiol gymdeithasau. Yn Ysgol Penisarwaun byddem yn:-

- Darparu cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag fo'i ryw, ei allu, ei gefndir diwylliannol a'i ethnig.
- Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn dioddef rhagfarn ar sail hil, cred, rhyw, iaith, gallu addysgol, safle cymdeithasol nac anabledd
- Sicrhau fod holl ystod y cwricwlwm ac holl adnoddau yr ysgol ar gael i bob disgybl.
- Sicrhau fod agweddau cymdeithasol cadarnhaol yn cael eu meithrin yn yr ysgol.
- Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol.
- Gwared o wahaniaethu anghyfreithlon - yn seiliedig ar ddeddf cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000.

Mae Polisi Cyfle Cyfartal yr ysgol yn ategu'r crynodeb uchod.

**Addysg Gorfforol**

Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn cael eu blas cyntaf ar chwaraeon yn yr ysgol, ac mae'n holl bwysig ein bod yn annog merched a bechgyn ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon o'u dyddiau cynnar. Y bwriad yw annog pawb i gynnwys ymarfer corff a chwaraeon yn ei bywyd - boed hynny ar y lefel uchaf neu ar raddfa gymdeithasol.

Er mwyn hybu diddordeb a sgiliau mae'r ysgol yn cynnig nifer o chwaraeon. Y bwriad ydi annog pob unigolyn i ymestyn gallu a llwyddo ar lefel bersonol.

Mae disgwyl i bob plentyn ddod â dillad ac esgidiau addas i'r ysgol ar gyfer Addysg Gorfforol. Cyn y wers bydd pob plentyn yn newid i ddillad ac esgidiau addas ac yna yn newid i ddillad arferol ar ddiwedd y wers. Am resymau diogelwch mae'n rhaid i bob plentyn dynnu modrwyau, cadwyni, a chlust dlysau cyn y wers. Os yw plentyn yn gwrthod nid oes gan athrawon hawl i dynnu'r tlysau oddi ar y plentyn am resymau cyfreithiol ac felly cyfrifoldeb y rhieni fydd unrhyw niwed neu golled o ganlyniad i wisgo tlysau yn ystod gwers Addysg Gorfforol. Ni fydd y plant yn gwisgo esgidiau ar gyfer gweithgareddau dan do.

Os yw plentyn yn benthyg dillad tîm ysgol mae'n rhaid eu dychwelyd i'r ysgol ar ôl y gêm wedi cael eu golchi.

Cynhelir dwy wers Addysg Gorfforol yn wythnosol. Hefyd mae'r ofynnol i'r disgyblion gymryd rhan yn y gwersi nofio, gymnasteg ac athletau (cyfystyr ag un wers Addysg Gorfforol) yn y Ganolfan Hamdden.

Yn ogystal cynhelir clybiau nos megis campau'r ddraig, Clwb Pêl - droed a Chlwb pêl - rwyd.

Nodau'r ysgol o ran chwaraeon a darpariaeth chwaraeon :-

- Rhoi cyfle i'r plant brofi llwyddiant mewn ystod eang o chwaraeon.
- Hybu'r plant i fod yn hyderus yn eu gallu athletaidd a'u defnydd o offer chwaraeon.
- Parhau i gystadlu mewn gweithgareddau dalgylchol/sirol a cheisio ehangu hynny i gystadlaethau newydd pan yn bosibl.
- Manteisio ar gynnig arbenigwyr i hyfforddi ac hyrwyddo polisiau ieuenctid y clybiau chwaraeon lleol.
- Hybu ffitrwydd pob plentyn o fewn yr ysgol.

**Gwaith Cartref**.
Mae gwaith cartref yn cael ei osod yn rheolaidd i blant drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn gobeithio bod pob cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

Ambell dro mae gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau, a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Mae'r ysgol yn sylweddoli mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw bydd rhieni yn cytuno i gydweithredu.

O dro i dro mae angen i bob plentyn bron wneud gwaith ychwanegol i gryfhau neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith ysgol. Mae'r ysgol yn gobeithio cael cydweithrediad llwyr y cartref i annog y plentyn i wneud y gwaith ychwanegol ar adegau fel hyn.

**Darllen**
Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar ddarllen. Cynllun darllen ar y cyd sydd yn cael ei ddefnyddio bennaf.

Yn ystod CA1 mae'r plant yn mynd â llyfrau adref ar ddydd Llun a dydd Gwener i'w darllen gyda'u rhieni. Mae disgwyl i rieni wrando ar neu gyd-ddarllen gyda'r plentyn a chofnodi hyn ar ffurflen bwrpasol cyn bod y plentyn yn dychwelyd y llyfr(au) i'r ysgol.

Yn ystod CA2 mae disgwyl bod y plant wedi meithrin mwy o annibyniaeth, ac yn darllen gan eu bod yn mwynhau darllen. Unwaith eto bydd llyfrau ar gael i'r plentyn eu darllen adref, ac mae'r ysgol yn gwerthfawrogi cefnogaeth a brwdfrydedd rhieni wrth annog eu plant i ddarllen. Mae sgiliau defnyddio llyfrgell yn cael ei datblygu ar yr un pryd.

**Asesu**
Mae datblygiad cymdeithasol ac addysgol pob plentyn yn cael ei fesur a'i gofnodi drwy gydol y cyfnod addysgol (4-11 oed). Mae asesu'n broses barhaus sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn yr ysgol. Bydd yr athrawon yn asesu plant yn anffurfiol drwy'r amser - gan gofnodi asesiad ffurfiol bob tymor.
Ar ddiwedd blwyddyn ysgol bydd yr athrawon yn crynhoi'r wybodaeth a rhoi asesiad diwedd blwyddyn i bob plentyn.

1. Bydd plant 4 oed yn cael eu hasesu yn fuan ar ôl cyrraedd yr ysgol i roi i'r ysgol asesiad sylfaen o allu plentyn a'i anghenion.
2. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 (Bl2) o'r Cwricwlwm Cenedlaethol mae asesiad athro yn ymdrin â phob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. (pynciau Craidd)
3. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mae'n ofynnol i athrawon gynnal asesiadau drwy brofion neu dasgau dewisol (asesiad athro) i wneud eu hasesiad statudol ar gyfer pob targed cyrhaeddiad mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (pynciau Craidd.)

Bydd canlyniadau rhain ynghyd ag adroddiad llawn o lefel cyrhaeddiad y disgyblion yn y gwahanol bynciau yn cael eu paratoi ar gyfer y rhieni perthnasol erbyn diwedd y flwyddyn addysgol. Trosglwyddir canlyniadau a'r asesiadau athro Bl 6 i'r Ysgol Uwchradd fel bod y broses asesu'n gallu parhau'n rhwydd.

Mae gan bob rhiant hawl i weld cofnodion unigol eu plentyn yn ôl y drefn sydd wedi ei osod yn genedlaethol - sef rhoi blaen-rybudd o bythefnos i'r athro/athrawes berthnasol.

O bryd i'w gilydd mae asesiad yn gallu dangos bod plentyn yn wynebu anawsterau. Bryd hynny bydd yr ysgol yn gwadd y rhieni i'r ysgol i drafod yr anawsterau gyda gobaith o'u datrys cyn iddynt ddatblygu'n broblemau mwy dyrys.

Yn yr un modd, os yw asesiad yn dangos cynnydd pendant mewn gwaith plentyn bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni i rannu'r wybodaeth.

**Anghenion Addysg Arbennig.**
Mae gan yr ysgol bolisi o integreiddio plant ag Anghenion Addysgol Arbennig yn llwyr i holl weithgareddau'r ysgol yn ôl gallu a photensial.

Mae camau pendant yn cael eu dilyn i adnabod disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig a darparu ar eu cyfer. Mae aelod o'r staff yn gyfrifol am gyd-gysylltu Anghenion Addysgol Arbennig o fewn yr ysgol, ac mae Llywodraethwyr penodol yn gyfrifol am gadw golwg ar y ddarpariaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer plant unigol yn cael eu adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol ac yn addas. Bydd pob darpariaeth a wneir yn cael eu drafod a'i gytuno gyda rhieni cyn ei weithredu.
Llunnir CAU (Cynllun Addysg Unigol) i'r disgyblion sydd ar y gofrestr ac adolygir y targedau yn dymhorol; ar y cyd â'r athro dosbarth a'r cyd- gysylltydd AAA.

Mae adeiladu'r ysgol yn addas ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn cadeiriau olwyn. Yr ysgol yn berchen cynllun Hygyrchedd cyfredol

**Addysg Gyflawn**
Er bod pwyslais ar y Cwricwlwm Cenedlaethol yr ydym yn ymwybodol iawn fod yna ochr arall bwysig iawn i addysg a datblygiad cyflawn plentyn. Yn ysgol Gymuned Penisarwaun 'rydym yn ceisio datblygu holl ddoniau a sgiliau'r plant drwy weithgareddau fel cyngherddau: gwasanaethau amserol arbennig fel Diolchgarwch, Y Nadolig, Gŵyl Ddewi, ymweliadau, teithiau preswyl, clybiau gyda'r nos, gemau, gweithgareddau gydag ysgolion eraill o fewn y dalgylch, cefnogi gweithgareddau'r gymuned fel yr Eisteddfod, a.y.y.b.

**Polisi Iaith**
Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn aelodau ohoni.

Ysgol Gymraeg naturiol yw Ysgol Gymuned Penisarwaun, a Chymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu yn yr ysgol. Mae'r gwasanaeth boreol a gweithgareddau'r ysgol yn cael eu cynnal yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfle i hwyrddyfodiaid Di-Gymraeg a ddaw i CA2 fynychu'r Uned Iaith ym Maesincla i ddysgu a gloywi iaith.

Dyma grynodeb o'r amcanion penodol ynghylch y polisi iaith.

Cyfnod Allweddol 1 (plant 5 - 7 0ed)

*"yn ystod y blynyddoedd hyn fe adeiladir ar y sylfaeni a osodwyd i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod meithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg".*
*Polisi Iaith Gwynedd.*

Yn ystod CA1 Cymraeg fydd prif gyfrwng y gweithgarwch ar draws y cwricwlwm.

Bydd plant o gartrefi Cymraeg yn cael eu cyflwyno i'r Saesneg pan fydd yr athro/athrawes yn ôl ei phrofiad/brofiad a'i d/ddoethineb yn gweld fod y plentyn yn barod ac wedi derbyn sylfaen ddigonol yn yr iaith gyntaf.

Cyfnod allweddol 2 (Plant 7 - 11 oed)

Yn ystod y cyfnod yma bydd pob plentyn yn cadarnhau a datblygu sgiliau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol er mwyn sicrhau bod plentyn yn gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

**GOFAL BUGEILIOL**

Mae cynnal ymddygiad da yn gwbl angenrheidiol os yw'r ysgol am gyflawni ei phwrpas, sef hybu twf a datblygiad pob plentyn. Rhoddir pob plentyn yng ngofal ei athro ddosbarth, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog y plant i fod yn hunanddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Rydym yn gofyn am gefnogaeth y rhieni yn hyn o beth.

Bydd Nyrs yr ysgol a'r Ymwelydd lechyd yn dod i'r ysgol yn achlysurol i roi prawf golwg i'r plant a hefyd yn edrych ar lanweithdra'n gyffredinol. Ceir ymweliad gan yr Awdurdod lechyd i brofi clyw y plant yn flynyddol hefyd.

**CYNGOR YSGOL**

Bellach, mae'n statudol cael Cyngor Ysgol, ond rydym ni ar y blaen gan bod un yma ers blynyddoedd bellach! Cynhelir etholiadau rheolaidd ar gyfer cynrychiolwyr ar y Cyngor Ysgol. Cynhelir cyfarfodydd cyson er mwyn clywed 'llais y plentyn' fel mewnbwn i ddatblygiad ac ethos yr Ysgol.

Trwy wrando a chyd-weithio mae'n haws symud yr Ysgol yn ei blaen. Mae'r cyngor yno i wrando ar holl ddisgyblion eraill yr Ysgol, a phontio'n bositif rhyngddynt hwy a staff yr Ysgol.

**CYSYLLTIAD RHWNG RHIENI A'R YSGOL**

Mae cefnogaeth a chymorth rhieni a'r gymuned yn ffactor bwysig iawn yn llwyddiant yr ysgol, ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y Llywodraethwyr, Y Pennaeth, a'r staff. Mae sawl ffordd effeithiol i rieni gefnogi a chyfrannu i fywyd a llwyddiant yr ysgol:

1. dangos brwdfrydedd a diddordeb yn natblygiad eich plentyn drwy ddod i gyfarfodydd i drafod gwaith eich plentyn gyda'r athro/athrawes. Mae cyfarfodydd Rhieni yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

   **Tymor yr Hydref** Cyfarfod dechrau'r flwyddyn gyda rhieni plant ysgol gyfan.

   **Tymor Y Pasg** Cynhelir diwrnod agored. Cyfle i rieni drafod gwaith gyda'i plant.

   **Tymor yr Haf** Fe fydd adroddiad ysgrifenedig ar gael o leiaf unwaith y flwyddyn fydd yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd addysgol a phresenoldeb y plentyn. Mae'r cyfarfod tua diwedd y flwyddyn ysgol yn gyfle i drafod cynnwys yr adroddiad blynyddol a datblygiad addysgol y plentyn yn ystod y flwyddyn.

2. cefnogi eich plentyn wrth iddo-iddi ddysgu darllen. Mae plant ifanc sydd yn treulio cyfnod yn rheolaidd gyda'i rhieni yn edrych ar lyfrau, gwrando ar eu rhieni yn darllen, a darllen i'w rhieni yn fwy tebygol o feistroli sgiliau darllen a dod i fwynhau a chael pleser o ddarllen wrth dyfu. Mae hyn yn ei dro yn helpu'r plentyn ddatblygu sgiliau iaith, geirfa dda, ac yn ehangu gorwelion y plentyn .
3. cefnogi eich plentyn i ddysgu tablau mathemateg ar y cof. Mae plant sydd yn deall bondiau rhif ac yn gwybod eu tablau yn drwyadl yn gweld gwaith rhif lawer yn haws. Maent hefyd yn gallu addasu'r wybodaeth ar gyfer dysgu sgiliau mathemategol newydd sydd yn sylfaen dda ar gyfer eu gyrfa ysgol.
4. dod i weithgareddau a chyfarfodydd yn yr ysgol - er enghraifft, nosweithiau agored, Ffair Llyfrau, Pasiant a Chyngherddau Nadolig, Mabolgampau. Ar gyfer rhai o'r gweithgareddau yma mae cymorth ychwanegol e.e. darparu gwisgoedd ar gyfer cynyrchiadau.
5. dod i weithgareddau a chyfarfodydd Cyfeillion yr Ysgol. Mae'r arian sydd yn cael ei gasglu gan y Cyfeillion yn cael ei defnyddio ar gyfer budd holl blant yr ysgol - er enghraifft, talu am drafnidiaeth i fynd â phlant ar ymweliadau addysgol, prynu offer ychwanegol fel offer technoleg gwybodaeth a.y.y.b.
6. Mae gan nifer o rieni ac aelodau eraill o deuluoedd estynedig sgiliau neu wybodaeth arbenigol, neu brofiad personol allai fod yn cyd-fynd â thema neu weithgaredd dosbarth neu'r ysgol gyfan. Yn achlysurol mae'r ysgol yn gwadd unigolion cymwys i ddod i'r ysgol i rannu eu profiadau neu sgiliau, ac rydym yn croesawu gwybodaeth am unigolion fyddai'n gallu cyfrannu yn y ffordd yma.

Mae'r ysgol a gwaith ysgol yn rhan annatod o fywyd plentyn. Mae cael rhiant sydd yn frwdfrydig a chefnogol i'r elfen hyn ym mywyd plentyn yn cryfhau'r berthynas bwysig rhwng y plentyn, y rhiant, a'r ysgol.

**Cytundeb Rhieni ac Ysgol**
Er mwyn datblygu'r berthynas a rhieni gwahoddir hwy i arwyddo cytundeb sydd yn amlinellu cyfrifoldebau ac addewidion yr ysgol wrth gynnig addysg i blentyn, ac i amlinellu cyfrifoldebau ac addewidion y rhieni wrth gynnig cefnogaeth i'w plentyn yn yr ysgol. Bydd cyfle hefyd i blant sydd yn ddigon aeddfed i arwyddo'r cytundeb. Bydd un copi yn cael ei gadw yn yr ysgol, a bydd y llall yn cael ei gadw gan y Rhieni.

**Ymweld â'r Ysgol**
Mae croeso i rieni ymweld â'r ysgol i drafod gwaith neu ddatblygiad eu plentyn ar unrhyw adeg os oes angen, ond byddem yn gwerthfawrogi pe bai rhieni yn trefnu hyn o flaen llaw, drwy anfon nodyn neu ffonio. Mae gan bob athro/athrawes, gan gynnwys y Pennaeth, gyfrifoldeb am ddosbarth ac mae angen i'r staff wneud trefniadau i rywun arall edrych ar ôl y dosbarth os oes rhiant eisiau eu gweld yn ystod y dydd.

**Cymdeithas Cyfeillion yr Ysgol**
Mae'r gymdeithas gyfeillion wedi ei sefydlu yn yr ysgol ers tro bellach. Bwriad ac amcanion y Gymdeithas yw codi arian ar gyfer yr ysgol , cynnig gweithgareddau diddorol i'r plant yn ogystal â bod yn gyfrwng i'r rhieni, y rhieni ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn fuan ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi. Mae croeso i bob un ohonoch i fod yn aelodau o'r gymdeithas hon. Byddwch cystal â chefnogi'r Gymdeithas yn ei hymdrechion, a cheisio mynychu cymaint o gyfarfodydd ag y bo modd. Po fwyaf llwyddiannus y gall y gymdeithas hon fod, po fwya'r enillion i'r ysgol.

**GWYBODAETH YMARFEROL**

**Polisi derbyn plant i'r ysgol**
Mae plant oed meithrin yn cael eu derbyn i'r ysgol yn rhan amser yn y Mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod, mae'n rhaid i'r plant gael eu cofrestru cyn y gellir eu derbyn.

Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn llawn amser ym Mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Eto, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod, mae'n rhaid i'r plant gael eu cofrestru cyn y gellir eu derbyn. Mewn achosion pan fydd mwy o blant yn aros am eu cofrestr na sydd o le ar gael, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw yn nalgylch yr ysgol. Cyfeirir pob cais all-ddalgylchol i sylw'r Awdurdod.

Rhif mynediad safonol yr ysgol yw 7. Os oes yna fwy na 7 o blant am gael mynediad i'r dosbarth derbyn mewn unrhyw flwyddyn mae'n rhaid i rieni plant sydd yn byw tu hwnt i ffiniau dalgylch yr ysgol (h.y. plant all-dalgylchol) wneud cais drwy'r Adran Addysg. Mae ffurflen bwrpasol ar gael yn yr ysgol.

Rhif ffôn Swyddog mynediad yr Awdurdod Addysg Lleol yw Mr Dewi Hughes 01286 679904

**Oriau Diwrnod Ysgol:**

Amseroedd agor a chau'r ysgol yw:

| | | |
|---|---|---|
| Meithrin | 9.00 a.m. - 11.00 a.m. | |
| Babanod | 9.00 a.m. - 3.00 p.m. | |
| Iau | 9.00 a.m. - 3.10 p.m. | |

Ni ddylai plant fod ar dir yr ysgol cyn 8.50 a.m. Ni fydd aelodau o'r staff ar gael i ofalu am y plant cyn yr amser yma.Ni ddylai disgyblion adael yr ysgol yn ystod y dydd heb ganiatâd. Os oes angen i blentyn adael yr ysgol yn ystod y dydd am ba bynnag reswm mae'n rhai i'r rhieni hysbysu'r ysgol o flaen llaw drwy ffonio neu yrru nodyn.

**Oriau dysgu**

| | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 1 (CA1) | 21 awr yr wythnos |
| Cyfnod Allweddol 2 (CA2) | 23.5 awr yr wythnos |

**Amseroedd Egwyl a Chinio**

| | |
|---|---|
| Egwyl boreol: | 10.40 a.m. - 10.55 a.m. |
| Amser Cinio: | 12.00 p.m. - 1.00 p.m. C.A.1 |
| | 12.15 p.m. - 1.00 p.m C.A 2 |
| Egwyl prynhawn: | 2.00 p.m. - 2.10 p.m. - C.A 1 |

Mae caniatâd i blant ddod â ffrwyth i'r ysgol i'w fwyta yn ystod amser chwarae. Nid oes caniatâd i blant ddod na bwyta unrhyw fath o dda-da yn yr ysgol.

Mae cinio yn cael ei ddarparu yn yr ysgol, gan gynnwys prydau arbennig ar gyfer llysieuwyr a.y.y.b. Mae arian cinio yn cael ei gasglu ar fore Llun neu fore Gwener. Rhaid rhoi'r union arian neu siec yn daladwy i 'Cyngor Gwynedd' mewn amlen ar wahân i unrhyw arian arall gydag enw'r plentyn arni'n glir. Pris cinio ysgol ar hyn o bryd yw £1.85 y diwrnod, ond mae hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol ym mis Ebrill.

Os nad yw plentyn am gael cinio ysgol gall ddod â phecyn bwyd ei hun i'r ysgol. Ni ddylai'r pecyn bwyd gynnwys potel wydr o ddiod am resymau diogelwch.

Os yw plentyn yn dewis mynd adre i gael cinio rhaid hysbysu'r Pennaeth drwy lythyr. Mae'n rhaid i'r plentyn ddod yn ôl i'r ysgol erbyn 12.50 p.m. ar gyfer sesiwn y pnawn.

Os yw plentyn am newid o un drefn i'r llall mae angen rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth o 21 diwrnod er tegwch a staff y gegin.

**GORUCHWYLIO**

Ein nod yw sicrhau diogelwch y plant a chadw safon dderbyniol o drefn a rheolaeth.

Mae'r ysgol yn gweithredu trefniadau goruchwylio plant gan yr athrawon a'r gweinyddesau yn ystod y cyfnodau isod:

> Cyn dechrau'r ysgol 10 munud (8.50 – 9.00)

- Egwyl y bore 15 munud (10.40 – 10.55)
- Egwyl y prynhawn 10 munud (2.00 - 2.10) Babanod
- Diwedd y prynhawn 10 munud (3.10 – 3.20)

A) TREFNIADAU TYWYDD SYCH

1. Gweithredir y goruchwylio drwy system rota dyddiol.
2. Bydd y staff ar ddyletswydd yn goruchwylio'r buarth drwy gydol y cyfnod.
3. Gwneir trefniadau i gyflenwi pan fo aelod o staff yn absennol.



B) TREFNIADAU TYWYDD GARW

Ar gyfnodau o dywydd garw, yr athrawon dosbarth fydd yn gyfrifol am baratoi gweithgaredd i'r plant ac i'w goruchwylio yn ystod yr egwyl.

C) TREFNIADAU AMSER CINIO

Goruchwylir plant gan o leiaf dwy oruchwylwraig Ar ol i'r plant orffen bwyta, mae'r goruchwylwyr yn mynd allan gyda'r plant ac yn eu goruchwylio ar y buarth hyd amser dod i mewn.

Yn ystod tywydd garw, byddant yn goruchwylio'r plant yn eu dosbarthiadau.

**Gwyliau Ysgol**

Bydd taflen gyda'r wybodaeth berthnasol am wyliau ysgol a dyddiau achlysurol eraill yn cael ei ddosbarthu'n flynyddol.

**Absenoldeb**

Os ydy plentyn yn absennol o'r ysgol mae'n rhaid i'r rhiant anfon nodyn neu ffonio'r ysgol i esbonio'r absenoldeb.

Bydd yr ysgol yn rhyddhau plentyn i fynd i apwyntiad meddygol neu ddeintyddol, ond dylai'r rhiant ddod â'r plentyn yn ôl apwyntiad os oes modd.

Mae disgwyl i rieni wneud pob ymdrech rhesymol i gymryd eu gwyliau'r un pryd a gwyliau ysgol er mwyn osgoi amharu ar addysg eu plant. Os yw rhiant am fynd â phlentyn ar wyliau yn ystod tymor ysgol mae angen llenwi ffurflen gwyliau sydd ar gael o'r ysgol a'i dychwelyd cyn cyfnod yr absenoldeb. Mewn achosion arbennig bydd caniatâd i dynnu plant o'r ysgol am gyfnod o bythefnos.

Os yw plentyn yn absennol am gyfnod hir oherwydd salwch mae disgwyl i'r rhieni gysylltu â'r ysgol er mwyn trefnu rhaglen gwaith cartref.

Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol yn aml iawn, neu fod plentyn yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol yn gyson rhaid i'r pennaeth anfon gwybodaeth i'r Swyddfa Addysg.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i bob rhiant o leiaf unwaith y flwyddyn ynglŷn â phresenoldeb/absenoldeb eu plentyn. Mae adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb/absenoldeb ar raddfa ysgol gyfan.

**Cau'r ysgol mewn Argyfwng**.

Mewn argyfwng, efallai bydd rhaid i'r Pennaeth gau'r ysgol er mwyn lles a diogelwch y plant. Ni fydd unrhyw ddisgybl yn cael ei ryddhau o'r ysgol oni bai bod yr ysgol yn sicr eu bod yn mynd i le diogel.

**Danfon a Chyrchu Plant o'r Ysgol**

Disgwylir i rieni'r plant meithrin a phlant CA1 ddanfon a chyrchu eu plant bob dydd. Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei ollwng o'r ysgol oni bai bod rhiant (neu oedolyn arall sydd â gofal am y plentyn) yn ei gyfarfod/chyfarfod wrth y giât. Mae hyn yn cynnwys plant CA1 sydd yn dewis mynd adre i gael eu cinio. Os yw rhiant yn trefnu i berson arall nôl y plentyn mae'n rhaid i'r rhiant hysbysu'r ysgol o'r trefniant.

Yn ystod tymor cyntaf plentyn yn y dosbarth derbyn mae caniatâd i rieni hebrwng eu plant i'r ystafell ddosbarth. Erbyn yr ail dymor mae disgwyl i rieni ollwng eu plant yn y cyntedd er mwyn hybu annibyniaeth y plentyn.

Mae plant yr adran Iau yn mynd a dod o'r ysgol eu hunain.

**Parcio y tu allan i'r ysgol**

Mae nifer o blant yr ysgol yn cael eu danfon i'r a'u cyrchu o'r ysgol mewn car. Yn y gorffennol roedd pryder bod problemau parcio yn effeithio ar ddiogelwch y plant wrth iddynt fynd a dod o'r ysgol. Gofynnwyd i heddwas lleol ac un o swyddogion Adran Diogelwch y Ffordd roi eu barn broffesiynol ar sut i wella'r sefyllfa. Roedd y ddau yn argymell:

1. Bod yn rhaid cadw'n glir o fynedfa Bryn Tirion, gan gofio ei bod yn anghyfreithlon parcio o fewn 10 medr i gyffordd.
2. Dylai rhieni barcio wrth ochr y palmant i gyfeiriad Bryn Eglwys o'r ysgol.
3. Bod plant yn dod allan o'r ceir ar ochr y palmant, ac nid ar ochr y ffordd.
4. Nid oes gwrthwynebiad i 4 neu 5 o geir barcio yn y gilfan wrth fynedfa'r ysgol cyn belled:

    - eu bod yn glir o'r safle mae'r ddynes lolipop yn croesi'r plant,
    - eu bod oddi mewn i'r marciau melyn.
    - bod y gyrrwr yn aros gyda'r cerbyd er mwyn ei symud pe bai argyfwng a bod angen llwybr dirwystr drwy'r adwy.

Er mwyn diogelwch plant yr ysgol rydym yn hyderus bydd pob rhiant yn dilyn y canllawiau yma.

**Gwisg Ysgol**

Mae gan Ysgol Penisarwaun wisg ysgol swyddogol fel a ganlyn:

| **GAEAF** | **HAF** |
|---|---|
| Trywsus neu sgert ddu neu lwyd. Crys | 'Shorts' du neu lwyd Crys polo gwyn |

| | |
|---|---|
| polo gwyn Siwmper Goch neu Grys Chwys Coch Cot goch gyda logo’r ysgol | Ffrogiau gingham coch a gwyn. |

**1** Gellir prynu gwisg ysgol gan y pennaeth am bris rhesymol. ( Gwneir arched oddeutu dair gwaith y flwyddyn
**2** Gellir prynu crysau polo a chrysau chwys hefo'r logo'r ysgol arnynt o **ASC Sports neu Set One.**

Dylai pob dilledyn gael eu marcio'n glir ar y tu mewn hefo enw plentyn.

**Meddygol**
Mae disgwyl i rieni ddweud wrth yr ysgol os oes unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol yn debygol o effeithio ar allu, gwaith, neu ymddygiad eu plentyn tra yn yr ysgol. Bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag aelodau o'r staff dysgu yn unig.

Os yw plentyn i dderbyn moddion yn ystod oriau ysgol mae angen llenwi ffurflen arbennig sydd ar gael o'r ysgol a chael llythyr gan y meddyg.

Os yw plentyn yn cael damwain ac yn brifo tra yn yr ysgol bydd y person ar ddyletswydd yn cynnig triniaeth sylfaenol. Os yw'r plentyn wedi brifo'n arw bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â’r rhieni. Os nad yw'r ysgol yn gallu cysylltu â’r rhieni yna bydd y plentyn yn cael ei gludo i'r ysbyty neu at feddyg ac yna cysylltu â’r rhieni.

**Llau Pen**
Mae achosion o lau pen yn gyffredin yn y gymdeithas ac yn ysgolion Cymru, ac mae ysgolion y dalgylch wedi cytuno i ddilyn yr un drefn wrth ddelio a'r broblem. Os ydi aelod o staff yn gweld bod gan blentyn lau pen bydd yr ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r rhieni ac yn gofyn i'r rhieni ddod i nôl eu plentyn o'r ysgol. Bydd disgwyl wedyn i'r rhieni ddelio hefo'r broblem cyn bod y plentyn yn dod yn ôl i'r ysgol.

Mae'r gwaith ymchwil wedi dangos bod archwilio a chrib gwallt plentyn yn ddyddiol yn lleihau'r siawns bod llau pen yn aros yn y gwallt a dodwy wyau. Mae cribo gwallt gwlyb hefo 'conditioner' arno gyda chrib man yn wythnosol hefyd yn lleihau'r broblem. Gall y meddyg teulu a’r fferyllydd rhoi cyngor am driniaethau eraill.

**Diogelwch**
Mae'r ysgol wedi gosod cyfarpar diogelwch ar ddrysau allanol yr ysgol er mwyn rhwystro pobl ddieithr rhag cael mynediad di-rwystr i'r adeilad. Tra mae'r plant yn chwarae allan mae yntau aelod o'r staff dysgu neu staff ategol/gofalwyr amser cinio yn cadw golwg ar y plant.

Nid yw plant i fynd oddi ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg nac am unrhyw reswm heb ganiatâd na goruchwyliaeth aelod o staff.

Cyfrifoldeb y plentyn yw gofalu am eiddo personol ac felly ni ddylai plant adael eiddo personol yn yr ysgol dros nos. Er mwyn ei gwneud yn haws i'ch plentyn edrych ar ôl ei eiddo mae angen marcio cotiau, dillad ysgol, a dillad ymarfer corff, fel bod y plentyn yn gallu eu hadnabod.

Yn achlysurol mae angen i blant ddod ag arian i'r ysgol e.e. arian nofio, chwaraeon, neu glwb llyfrau a.y.y.b Mae'n llawer haws os yw plant yn dod â'r union arian ac yn ei roi ben bore i'r athro/athrawes dosbarth. Ni ddylai plant ddod ag arian personol i'r ysgol rhag ofn iddynt golli'r arian.

Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw degan a ddaw plentyn i'r ysgol o'r cartref. Ni chaniateir unrhyw deganau treisgar na chyllyll ar unrhyw adeg.

Ni ddylai plant wisgo modrwyau, cadwynau, na chlust dlysau yn yr ysgol am resymau diogelwch.

Os yw plentyn yn colli neu ddifrodi eiddo oedd ar fenthyg o'r ysgol mae disgwyl iddo neu iddi ddigolledu'r ysgol.

**Cynnal YMDDYGIAD**

Yma yn Ysgol Penisarwaun mae ein polisi yn nodi yn glir y dylid rhoi pwyslais ar y cadarnhaol-gan annog a chanmol, ynghyd a mynnu ymddygiad priodol bob amser. Credem bod hyn yn meithrin ac yn atgyfnerthu parch at gyfoedion, oedolion ac eiddo.

Rydym yn ceisio creu ethos priodol trwy'r Ysgol a fydd yn sicrhau amgylchfyd ac awyrgylch hapus a threfnus - trwy strategaethau a fydd yn ymgyrraedd tuag at ddatblygu hunan ddisgyblaeth.

Rydym yn gweithredu'r drefn Webster –Stratton yn y Babanod, eto gan ganmol gweithredoedd penodol a chadarnhaol. Cyn hir, bydd y drefn trwy'r Ysgol gyfan.

Os yw plentyn yn parhau i gamymddwyn (er gwaethaf pob ymdrech rhesymol gan yr Ysgol),gan amharu ar rediad naturiol y dosbarth neu'r Ysgol rydym yn dilyn canllawiau'r A.A.Ll. gyda'r posibilrwydd o wahardd y plentyn.

Mae polisi a chanllawiau pendant ar gyfer trin achosion o gamymddygiad a bwlio, a pholisi ar y defnydd neu feddiant o alcohol neu gyffuriau eraill. Mae'r polisïau ar gael i unrhyw un o'r rhieni i'w astudio.

Os yw plentyn yn difrodi eiddo yn yr ysgol yn fwriadol mae disgwyl iddo neu iddi wneud iawn am y golled.

**Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd**

Mae ysgol Gymuned Penisarwaun yn nalgylch Ysgol Brynrefail, Llanrug. Mae cysylltiad pendant a chyson rhwng ysgolion cynradd y dalgylch a'r ysgol uwchradd drwy gydol y flwyddyn, ac mae hyn yn helpu plant ddygymod mor ddigyffro â naturiol a phosibl wrth symud o ysgol fechan fel Ysgol Gymuned Penisarwaun i Ysgol Brynrefail.

**Y Drefn Gwyno**
Yn achlysurol gall rhiant fod yn anhapus ag agwedd o addysg eu plentyn, yr ysgol, neu aelod o staff, ac mae trefn wedi ei sefydlu ar gyfer delio a chwynion o'r fath.

Yn y lle cyntaf dylai rhiant gysylltu â Phennaeth yr ysgol i wneud apwyntiad i drafod pryderon neu gŵyn, Yn aml mae'n bosibl ymdrin â datrys y rhan fwyaf o gwynion yn sydyn ac effeithiol drwy drafodaeth ac ystyriaeth anffurfiol gyda'r Pennaeth.

Os yw'r rhiant yn bryderus neu'n teimlo nad yw'r gwyn wedi ei datrys mewn ffordd foddhaol mae ganddo ef neu hi'r hawl i wneud cwyn swyddogol i'r Corff Llywodraethol. Mae manylion am y drefn hon, sydd wedi ei sefydlu gan yr Awdurdod Addysg Leol yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 23 o'r Ddeddf Diwygio Addysg 1989, wedi ei hamlinellu mewn dogfen ddwyieithog bwrpasol sydd ar gael o'r ysgol. Yn gryno, mae'n rhaid i'r rhiant ysgrifennu at gadeirydd y Corff Llywodraethol yn amlinellu'r gwyn. Bydd y Cadeirydd wedyn yn dod â'r gwyn o flaen y Corff Llywodraethol neu Is-banel o'r corff yn ôl y gofyn. Bydd pob cwyn yn cael ei ystyried a'i thrafod yn ofalus, a chamau priodol yn dilyn os oes angen.

**<u>Codi tâl am weithgareddau</u>**
Byddwn bob amser yn ceisio cadw costau mor rhesymol a phosibl. Byddwn yn gofyn am gyfraniad e.e. tuag at gost y bws i'r gwersi nofio / tennis/gymnasteg wythnosol (£1.50 ar hyn o bryd). Rydym yn ffodus bod y Cyfeillion yr Ysgol yn sybsideiddio llawer arnom.
Rhagwelir y bydd nifer o deithiau yn ystod oriau ysgol a fydd yn brofiadiau gwerthfawr i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol, yn ôl Deddf Addysg 1988
- hawl i ofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at gost o drefnu'r daith
- hawl i ofyn i asiant allanol drefnu'r daith.

Awdurdodir y Pennaeth i ofyn am dâl am -
- weithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau'r ysgol
- ddifrod a wneir i unrhyw ran o adeilad yr ysgol yn dilyn cam ymddygiad
- golli llyfr neu gyfarpar neu eiddo sy'n perthyn i'r ysgol

Mae gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yr hawl i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw'n ymddangos y byddai cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol.

Mae gwersi offerynnol yn costio £90 y flwyddyn (am 30 gwers) a disgwylir i blentyn ddilyn y cynllun am o leiaf blwyddyn. Prynir gwasanaeth arbenigwr ar gyfer hyn.

**Dogfennau sydd ar gael i'w gweld**
Mae gennych hawl os dymunwch i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig / Cynulliad, Polisïau'r Awdurdod Addysg, Polisïau'r Corff Llywodraethol, adroddiadau AEM ar yr ysgol, meysydd llafur a chynlluniau gwaith ac adroddiad blynyddol i rieni.
Mae'r ysgol yn berchen cynllun cyhoeddi cyfredol.

Cewch wneud trefniant gyda'r Pennaeth ar gyfer hyn.

**Clwb Plant Penisarwaun**

Cynhelir Y Clwb yn yr Ysgol Gymunedol y Pentref lle y ceir trefniant i hebrwng y plant i'r clwb am 3.00yh a 3.10yh a hynny drwy gydweithrediad yr ysgol. Bydd y clwb ar agor pump diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 3.00yh a 5.00yh gyda chofrestriad ar gyfer mynediad i uchafswm o 16 o blant y dydd. Cyflogir staff ar gymhareb 1:8 yn unol â Safonau Gofal Cymru.

Caiff blentyn fynychu sesiwn cyfan hyd at 5.00yh neu caiff fynychu fesul awr, bydd ystod eang o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer bob sesiwn a darperir lluniaeth ysgafn i'r plant

ee brechdanau, tost, ffrwythau â diod. Yn dilyn cofrestru'r Clwb y bwriad yw agor tan 5:30 yr hwyr.

*Prif amcanion Y Clwb fydd cynnig:*

- gofal ar ôl ysgol o'r safon uchaf, yn ddwyieithog, am bris rhesymol sydd o fewn cyrraedd i'r gymuned leol, a hynny wedi ei seilio ar bolisi cyfle cyfartal.
- cyfle i rieni a gofalwyr ddychwelyd i weithio.
- awyrgylch creadigol fydd yn symbylu'r plant er mwyn iddynt, drwy chwarae unigol a chwarae grŵp, ddatblygu'n gymdeithasol, deallusol ac yn emosiynol.
- mae'n ofynnol i blant sydd am fynychu'r Clwb fod yn yr ysgol gynradd yn llawn amser.

**Clwb Brecwast**

Ceir clwb Brecwast yn yr ysgol. Bydd y Clwb agor am 8:15 yn y bore a cheir y Brecwast olaf am 8:50. Mae'n gyfle i'ch plentyn gyfarfod â phlant eraill dan oruchwyliaeth cyn i'r ysgol ddechrau. Gall peidio â bwyta brecwast olygu bod y plant yn brin o egni a'u bod yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio yn ystod hanner cyntaf diwrnod yr ysgol. Gall hyn hefyd arwain at berfformiad academaidd gwael

**Ystadegau mae'n statudol eu cyflwyno yn y llawlyfr:-**

**Cyfeirir yma at 2008/2009**

PRESENOLDEB

| Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf |
|---|---|---|
| **94.2%** | **93.2%** | **95.5%** |

<u>Canlyniadau asesu Cyfnod Allweddol 1</u>

| | Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth |
|---|---|---|---|
| Lefel 2 neu uwch 2009 yr ysgol | 100% | 100% | 100% |
| Cymhariaeth Genedlaethol 2009 | 90.0% | 87% | 90% |

<u>Canlynidau asesu Cyfnod Allweddol 2</u>

| | Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Saesneg |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 4 neu uwch 2009 yr ysgol | 90% | 90% | 90% | 90% |
| Cymhariaeth Genedlaethol 2009 | 79.9% | 82.5% | 86.4% | 81% |

Ysgol Gymuned Penisarwaun
Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd. LL55 3BW
(01286) 870879

Pennaeth / Headteacher Mr. G.F.Jones B.Add

## Ysgol Gymuned Penisarwaun - Defnydd o'r rhyngrwyd

Wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn yr ysgol mae'r disgyblion yn cael cyfle pan yn briodol i ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Rhwydwaith byd-eang o gyfrifiaduron yw'r Rhyngrwyd sy'n cynnwys miliynau o dudalennau o wybodaeth. Mae llawer o'r wybodaeth yn ddefnyddiol ac yn gymorth i waith y disgyblion ym mhob pwnc yn yr ysgol. Gall y disgyblion hefyd ddefnyddio E-bost i anfon negeseuon at ddefnyddwyr eraill ar draws y byd.

Cyn defnyddio'r rhyngrwyd rhaid i bob disgybl sicrhau caniatâd eu rhieni/gwarcheidwad ac felly rhaid ichi lenwi, arwyddo a dychwelyd y ffurflen ar waelod y dudalen i'r ysgol.

Yn anffodus mae rhywfaint o'r deunydd sydd ar y We Fyd Eang yn anghyfreithlon, yn ffiaidd ac yn anaddas i blant. Er hyn mae'r ysgol yn credu bod y manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r Rhyngrwyd yn llawer mwy na'r anfanteision.

Er mwyn ceisio sicrhau na fydd y disgyblion yn mynychu safleoedd anaddas ar y We bydd athrawon yn goruchwylio'r defnydd a wna'r disgyblion o'r Rhyngrwyd yn ystod y gwersi ac yn arwain disgyblion at adnoddau pwrpasol. Defnyddir meddalwedd arbennig sydd yn hidlo ac yn atal mynediad at safleoedd anaddas a dylai'r disgyblion bob amser ddilyn canllawiau'r ysgol ar gyfer defnyddio'r Rhyngrwyd.

Amgaeaf gopi o'r canllawiau y disgwylir i bob disgybl eu dilyn wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn yr ysgol er mwyn ichi eu trafod gyda'ch plentyn/plant.

---

**Defnydd o'r Rhyngrwyd - Caniatâd Rhieni/Gwarcheidwad**

**Rwyf yn rhoi caniatâd i fy mab/merch ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn yr ysgol**.
Rwyf yn deall bod deunyddiau anaddas i'w canfod ar y We Fyd eang ac yn derbyn bod yr ysgol yn cymryd camau rhesymol i sicrhau na fydd disgyblion yn cyrraedd fath safleoedd. Rwyf wedi trafod y canllawiau Defnyddio'r Rhyngrwyd gyda fy mhlentyn/mhlant.

Enw'r disgybl:________________________ Dosbarth _______________________

Llofnod: ____________________________ Dyddiad: _______________________

**Canllawiau Disgyblion**

1. mae disgwyl yr un safon ymddygiad wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd ag y disgwylir yn arferol yn yr ysgol
2. pwrpas y Rhyngrwyd yw i ddisgyblion gywain gwybodaeth a chysylltu ag eraill - rhaid wrth ganiatâd Rhieni i wneud hyn a braint nid hawl yw cael mynediad i'r cyfrwng
3. ni chaniateir cyrchu, arddangos nag anfon deunydd ffiaidd ar y Rhyngrwyd
4. dylid parchu deddfau hawlfraint
5. ni ddylwn yn fwriadol wastraffu amser nac adnoddau wrth ddefnyddio'r cyfrwng
6. ni ddylid chwilota yn ffeiliau cadw disgyblion eraill
7. gall athrawon gael mynediad at, ac archwilio ffeiliau cadw disgyblion sydd ar systemau'r ysgol.

Ysgol Gymuned Penisarwaun
Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd. LL55 3BW
(01286) 870879

Pennaeth / Headteacher Mr. G.F.Jones B.Add

**Polisi Tynnu Lluniau Plant Ysgol Gymuned Penisarwaun**

Annwyl Riant / Gofalwr,

Yn ystod cyfnod eich plentyn yn yr ysgol bydd sefyllfaoedd amrywiol yn codi lle bydd tynnu lluniau (ffotograff neu fideo) yn bosibilrwydd. Mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni sicrhau diogelwch y plant pan dynnir unrhyw luniau ohonynt yn yr ysgol.

Isod esboniaf beth yw polisi'r ysgol o safbwynt tynnu lluniau a'r defnydd a wneir ohonynt mewn gwahanol sefyllfaoedd:

1. **Ffotograffau / fideo ar gyfer defnydd yr ysgol:**

e.e. disgyblion wrth eu gwaith, ar ymweliadau, mewn cystadlaethau.
Caiff ffotograffau o'r fath eu harddangos yn yr ysgol yn unig - ar waliau, mewn arddangosfeydd ac mewn llyfrynnau o waith disgyblion.
Caiff fideo o'r fath ei ddangos yn yr ysgol yn unig.
Cedwir y ffotograffau / fideo ar ffeil yn yr ysgol.

<u>Ni fydd</u> yr ysgol yn gofyn am eich caniatâd i dynnu a defnyddio'r ffotograffau / fideo yn y categori hwn.

2. **Ffotograffau / fideo i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol:**

e.e. llwyddiannau ar gyfer y papur bro a'r wasg leol, gwybodaeth ar gyfer y llawlyfr ysgol, cyfraniad i raglen deledu.
Cedwir y ffotograffau / fideo ar ffeil yn yr ysgol.
I sicrhau diogelwch disgyblion bydd yr ysgol yn sicrhau

- bod caniatâd rhieni /gofalwyr ar gael ar gyfer ffotograffau / fideo yn y categori hwn.
- bod cyfle i rieni / gofalwyr nodi gwrthwynebiad i dynnu llun / fideo (cedwir dymuniadau o'r fath yn gyfrinachol)

1\. **Ffotograffau / fideo a dynnir gan rieni ac mewn sefyllfaoedd sy'n agored i'r cyhoedd:**

e.e. mewn cyngherddau, sioeau, mabolgampau a drefnir gan yr ysgol.
Er mwyn galluogi rhieni / gofalwyr i dynnu lluniau yn yr achlysuron uchod bydd yr ysgol yn sicrhau:

- bod caniatâd rhieni /gofalwyr ar gael ar gyfer ffotograffau / fideo yn y categori hwn.
- bod cyfle i rieni / gofalwyr nodi gwrthwynebiad i dynnu llun / fideo (cedwir dymuniadau o'r fath yn gyfrinachol)
- bod monitro defnydd o gamerâu ac unrhyw ymddygiad annerbyniol yn digwydd yn ystod y digwyddiad.

Gofynnir am eich caniatâd drwy'r ffurflen amgaeedig a gofynnaf yn garedig i chwi ei dychwelyd erbyn (Dyddiad).
Os dymunwch ddileu'r caniatâd ar unrhyw adeg cysylltwch â'r pennaeth.

Mewn achosion a ystyrir yn eithriadol gofynnir am ganiatâd penodol. Gyda disgyblion ddaw o'r newydd i'r ysgol gofynnir am y caniatâd ar ddechrau eu gyrfa yn yr ysgol.

Os oes sefyllfa'n godi pan fydd y pennaeth o'r farn nad yw'n addas i dynnu lluniau / ffilmio, gwaherddir camerâu o'r digwyddiad a bydd yr ysgol yn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei ffilmio neu fod lluniau yn cael eu tynnu gan berson proffesiynol wedi derbyn archwiliad heddlu. Byddai'r lluniau / fideo ar gael i rieni / gofalwyr am bris rhesymol.

Diolch yn fawr i chi am eich cydweithrediad.
Yn gywir,

*Gareth Fôn Jones*

**YSGOL GYMUNED PENISARWAUN**

**Ffurflen caniatâd rhiant / gofalwr ar gyfer tynnu lluniau* o blentyn.**

*(lluniau = ffotograff neu fideo)

**A. Ffotograffau / fideo i'w defnyddio tu allan i'r ysgol:**
e.e. llwyddiannau ar gyfer y papur bro a'r wasg leol, gwybodaeth ar gyfer y llawlyfr ysgol, cyfraniad i raglen deledu a safle'r Wê

Rhoddaf ganiatâd i'm plentyn fod mewn lluniau / fideo yn y categori hwn ☐

Ni roddaf ganiatâd i'm plentyn fod mewn lluniau / fideo yn y categori hwn ☐

**B. Ffotograffau / fideo a dynnir gan rieni ac mewn sefyllfaoedd sy'n agored i'r cyhoedd.**
e.e. mewn cyngherddau, sioeau, mabolgampau a drefnir gan yr ysgol.

Rhoddaf ganiatâd i'm plentyn fod mewn lluniau / fideo yn y categori hwn

Ni roddaf ganiatâd i'm plentyn fod mewn lluniau / fideo yn y categori hwn

Ticiwch UN bocs.

Arwyddwyd …………………………………………………………Rhiant / Gofalwr

Dyddiad ……………………………………….

Mewn achosion eithriadol byddwn yn gofyn am ganiatâd penodol.

Os dymunwch ddileu y caniatâd ar unrhyw adeg cysylltwch â'r pennaeth.

Os oes sefyllfa'n codi pan fydd y pennaeth o'r farn nad yw'n addas i dynnu lluniau / ffilmio bydd ei benderfyniad / phenderfyniad yn derfynol.

Ysgol Gymuned Penisarwaun
Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd. LL55 3BW
(01286) 870879

Pennaeth / Headteacher Mr. G.F.Jones B.Add

**<u>Ffurflen caniatâd ar gyfer ymweliadau rheolaidd a byrfyfyr e.e ( taith natur i fyny'r lôn ayyb.)</u>**

Rwy'n caniatáu i'm plentyn________________ fynychu ymweliadau rheolaidd a byrfyfyr a drefnir gan yr ysgol yn ystod ei yrfa yn Ysgol Penisarwaun.

Deallaf na fydd yr ysgol yn cysylltu â mi fel rhiant ynglŷn â'r ymweliadau hyn oni bai fod y trefniadau'n teilyngu caniatâd pellach.

**Arwyddwyd** ________________________________**(Rhiant)**

______________________**Dyddiad**

# GWYLIAU YSGOL
## 2010-2011

**TYMOR:**

| | |
|---|---|
| Hydref 2010 | 1 Medi 2010 - 20 Rhagfyr 2010 |
| Gwanwyn 2011 | 4 Ionawr 2011 - 15 Ebrill 2011 |
| Hâf 2011 | 3 Mai 2011 - 20 Gorffennaf 2011 |

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Iau, 2ail o Fedi, 2010.

**GWYLIAU:**

| | |
|---|---|
| 25 – 29 Hydref 2010 | (Hanner-Tymor) |
| 21 Rhagfyr 2010 - 3 Ionawr 2011 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 21 - 25 Chwefror 2011 | (Hanner-Tymor) |
| 18 – 29 Ebrill 2011 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 2 Mai 2011 | (Calan Mai) |
| 30 Mai – 3 Mehefin 2011 | (Hanner-Tymor) |
| 21 Gorffennaf - 31 Awst 2011 | (Gwyliau'r Hâf) |

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ar ddydd Iau, 1af o Fedi, 2011 i athrawon, ac ar ddydd Gwener, 2ail o Fedi i ddisgyblion.

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

| | |
|---|---|
| MEDI 2010 | 22 |
| HYDREF 2010 | 16 |
| TACHWEDD 2010 | 22 |
| RHAGFYR 2010 | 14 |
| IONAWR 2011 | 20 |
| CHWEFROR 2011 | 15 |
| MAWRTH 2011 | 23 |
| EBRILL 2011 | 11 |
| MAI 2011 | 19 |
| MEHEFIN 2011 | 19 |
| GORFFENNAF 2011 | 14 |
| | 195 |

1af o Fedi 2010 - Diwrnodau dan Reolaeth Ysgol
6 Diwrnod Hyfforddiant
Daw hyn a'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 188

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau, yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.
Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau, yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.

## CYTUNDEB CARTREF/YSGOL CYNRADD

**ENW**________________________________

Byddaf/Byddwn yn gwneud fy/ein gorau i:

- roi pob cymorth a chefnogaeth i fy/ein plentyn gyda'i addysg;
- gefnogi fy/ein plentyn gydag unrhyw weithgaredd a osodir gan yr ysgol gan gynnwys gwaith cartref;
- fynychu nosweithiau rhieni a chyfarfodydd sydd wedi eu trefnu ar gyfer trafod datblygiad fy/ein plentyn;
- sicrhau bod fy/ein plentyn yn dod i'r ysgol yn brydlon a rheolaidd;
- sicrhau bod fy/ein plentyn yn cydymffurfio â pholisi ymddygiad yr ysgol;
- annog fy/ein plentyn i feithrin parch tuag at ei hun ac eraill.
- sicrhau y byddaf/byddwn yn cysylltu â'r ysgol ar unwaith mewn unrhyw achos o absenoldeb.

## YSGOL GYMUNED PENISARWAUN

- Byddwn yn sicrhau y darperir rhaglen addysgu eang a chytbwys, sy'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn yn gweithio hyd eithaf ei allu.
- Gwneir pob ymdrech i baratoi amgylchedd ddiogel a gofalgar i'ch plentyn.
- Darperir gwaith cartref rheolaidd yn unol â pholisi'r ysgol.
- Bydd yr ysgol yn:
  - darparu gwybodaeth rheolaidd;
  - darparu gwybodaeth am ddatb eich plentyn;
  - cysylltu ar fyrder ynghylch unrhyw bryderon.
- Bydd yr ysgol yn rhoi sylw'n syth i unrhyw bryderon sydd gennych.
- Bydd yr ysgol yn rhoi sylw teilwng a phrydlon i unrhyw bryder sydd gennych.

I'm cynorthwyo i wneud yn dda yn yr ysgol, gwnaf fy ngorau i:

- weithio'n galed yn yr ysgol;
- wneud fy ngwaith cartref;
- dod i'r ysgol yn rheolaidd ac ymdrechu i fod yn brydlon bob amser;
- ymddwyn yn gwrtais a dilyn rheolau'r ysgol;
- dangos parch a gofal tuag at bawb.

**Arwyddwyd:**

________________________

**(Rhiant/Gwarcheidwad)**

**Arwyddwyd:**

____________________

**(Pennaeth)**